# Ordinhad 12

# Y Senedd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 3.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 12
# Y Senedd

1. Rhagarweiniad

1.1 Yn unol â pharagraff 16 o'r Siarter, y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol yn amodol ar reolaeth a chymeradwyaeth gyffredinol y Cyngor.

1.2 Y Senedd yw'r corff llywodraethol ar faterion sydd angen barn academaidd. Dyma enghreifftiau o'r cyfryw faterion:

- Rheoliadau'n ymwneud â rhaglenni gradd a myfyrwyr;
- Asesiadau, cynnydd ac apeliadau myfyrwyr;
- Cofrestru myfyrwyr neu derfynu astudiaethau;
- Disgyblu myfyrwyr;
- Dyfarnu gwobrau, ysgoloriaethau ac ati;
- Hyd a strwythur y flwyddyn academaidd;
- Materion yn ymwneud â'r amserlen; ac
- Achosion myfyrwyr unigol.

1.3 Gall y Senedd hefyd drafod materion strategol sy'n effeithio ar y maes academaidd.

1.4 Bydd cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw newid arfaethedig i Siarter y Brifysgol.

2. Aelodaeth

2.1 Bydd y Senedd yn cynnwys y canlynol:

(a) Y Llywydd/Is-ganghellor (Cadeirydd)
(b) Unrhyw Ddirprwy i'r Is-ganghellor(ion) a'r Dirprwy Is-ganghellor(ion);
(c) Pennaeth pob Ysgol academaidd.
(d) Tri chynrychiolydd, a benodir gan Undeb y Myfyrwyr (a fydd fel arfer yn cynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Llywydd UMCB a'r Is-lywydd, Addysg);
(e) Hyd at bedwar o unigolion sy'n aelodau cyfetholedig ac wedi eu cymeradwyo gan y Senedd, ac
(f) Hyd at dri aelod academaidd annibynnol etholedig, un o bob Coleg.

2.2. Ysgrifennydd y Brifysgol, neu ei enwebai, fydd ysgrifennydd y Senedd.

2.3 Gall Swyddogion eraill ddod i gyfarfodydd y Senedd at ddibenion ymgynghorol neu fel arsylwyr. Fel arfer bydd y Swyddogion canlynol yn bresennol:

a) Prif Swyddog Cyllid
b) Prif Swyddog Pobl
c) Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio
d) Prif Swyddog Gweithredu
e) Prif Swyddog Marchnata
f) Cofrestrydd Academaidd
g) Ysgrifennydd y Brifysgol

2.4 Gall unigolion eraill ddod i gyfarfodydd y Senedd ar wahoddiad y Cadeirydd.

2.5 Ni chaniateir i aelod o'r Senedd enwebu dirprwy yn ei le os na all ddod i gyfarfod.

2.6 Penodir Aelodau Academaidd Annibynnol Etholedig y Senedd fel a ganlyn:

(i) Pan fydd swydd aelod academaidd annibynnol ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn hysbysu'r Dirprwy Is-ganghellor/Pennaeth y Coleg perthnasol a fydd yn trefnu gofyn am enwebiadau o fewn eu Coleg priodol.

(ii) Caiff pob enwebiad ei lofnodi gan gynigydd ac eilydd, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

(iii) Os cynhelir y bleidlais yn bennaf trwy ddulliau electronig, bydd y Dirprwy Is-ganghellor(ion) / Pennaeth y Coleg yn trefnu bod aelodau o'r staff academaidd yn gofyn am bapur pleidleisio.

(iv) Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd y Dirprwy Is-ganghellor(ion) / Pennaeth y Coleg perthnasol yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer mwyaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, trefnir dull yr etholiad yn ôl doethineb Ysgrifennydd y Brifysgol, a fydd yn cynghori'r Coleg perthnasol.

(v) Cyhoeddir canlyniad yr etholiad gan y Dirprwy Is-ganghellor / Pennaeth y Coleg.

(vi) Os daw unrhyw sedd yn wag dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull cyffelyb i'r uchod. Bydd unrhyw un a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o gyfnod y swydd.

(vii) Fel arfer, bydd cyfnod swydd Aelod Academaidd Annibynnol Etholedig yn bedair blynedd. Mae Aelodau Annibynnol Etholedig yn gymwys i gael eu hail-ethol ar ddiwedd un tymor.

## 3. <u>Cyfarfodydd</u>

3.1. Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Senedd, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

3.2 Bydd y Senedd yn cyfarfod ar y cyfryw achlysuron a benderfynir trwy Ordinhad neu'n unol â chyfarwyddyd Cadeirydd y Senedd. Bydd pedwar cyfarfod o'r Senedd bob blwyddyn academaidd.

Gelwir y cyfarfodydd hyn yn Gyfarfodydd Arferol a chânt eu galw gan y Cadeirydd. Gelwir unrhyw gyfarfod heblaw'r rhai a nodwyd uchod yn Gyfarfod Arbennig, a chânt eu galw gan y Cadeirydd.

3.3 Bydd y Senedd yn cyfarfod wyneb yn wyneb, neu'n rhithiol ar-lein fel y bydd Cadeirydd y Senedd yn ei gyfarwyddo.

3.4 Cynullir pob cyfarfod o'r Cyngor drwy hysbysu'r aelodau o hynny.

3.5 Ni fydd anghofio anfon hysbysiadau, camgymeriadau damweiniol wrth eu cyfeirio a methiant ar ran y gwasanaeth post i'w danfon, yn dirymu gweithrediadau'r cyfarfod a gynullwyd yn y modd hwn.

3.6 Ni chaiff gweithrediadau'r Senedd eu dirymu oherwydd bod unrhyw swydd wag ar y Senedd, neu oherwydd unrhyw ddiffyg wrth benodi unrhyw un sy'n pleidleisio fel aelod.

3.7 Anfonir y cais am gyfarfod arbennig yn unol â pharagraff 3.2 uchod at Ysgrifennydd y Brifysgol, a bydd yn datgan y mater i'w drafod yn y cyfarfod. Bydd y rhybudd yn cynnull unrhyw gyfarfod arbennig yn datgan y mater i'w drafod yn y cyfarfod hwnnw, ac mewn cyfryw gyfarfod, cyfyngir yr hyn a drafodir i'r hyn a nodwyd yn y rhybudd ac unrhyw faterion ym marn y Cadeirydd sy'n deillio'n uniongyrchol o'r mater hwnnw.

3.8 Bydd unrhyw aelod sy'n dymuno dod ag unrhyw fater i sylw cyfarfod arferol yn rhoi 10 diwrnod o rybudd ysgrifenedig ohono i Ysgrifennydd y Brifysgol. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol, ddim llai na phedwar diwrnod cyn pob cyfarfod arferol, yn anfon rhybudd at bob aelod o'r Senedd o'r holl faterion i'w dwyn gerbron y cyfryw gyfarfod, yn cynnwys, cyn belled ag y bo modd, ddatganiad am natur y materion yr adroddir arnynt gan unrhyw Bwyllgor.

3.9 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Senedd fydd traean aelodau'r pwyllgor (wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf), pa bynnag un sydd fwyaf.

3.10 Os nad oes cworwm mewn cyfarfod o fewn hanner awr i'r amser a bennwyd, caiff y cyfarfod ei ddiddymu os yw'n gyfarfod arbennig; os mai cyfarfod arferol ydyw, caiff ei ohirio am bythefnos i'r diwrnod hwnnw, i'w gynnal yr un amser ac yn yr un lle, ac, os na fydd cworwm ar yr achlysur hwnnw, caiff ei ddiddymu.

3.11 Gall unrhyw gyfarfod gael ei ohirio i amser a lle a bennir gan y cyfarfod.

4. <u>Rheolau Sefydlog</u>

4.1 Mae gan y Senedd y grym i wneud Rheolau Sefydlog at ddiben rheoli ei ddulliau gweithredu.

4.2 Gall y cyfryw Reolau Sefydlog bennu bod angen pleidlais dim llai na dwy ran o dair neu dri chwarter (fel y pennir mewn unrhyw achos neilltuol) yr aelodau sy'n bresennol (yn y cnawd ac yn rhithiol) ac yn pleidleisio ar gyfer eitem neilltuol.

5. <u>Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau</u>

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r statudau, bydd gan y Senedd y pwerau a'r swyddogaethau canlynol, y caiff eu dirprwyo i'r pwyllgorau y mae'n eu sefydlu:

5.1 Goruchwylio a rheoleiddio addysgu ac ymchwil yn y Brifysgol a'r arholiadau ac asesiadau a gynhelir gan y Brifysgol.

5.2 Gwneud y cyfryw reoliadau y mae'n eu hystyried sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben cyflawni ei swyddogaethau yn unol â diffiniad y Siarter.

5.3 Dyfarnu graddau a rhagoriaethau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

5.4 Gyda rheswm da, diddymu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

5.5 Rheoleiddio disgyblaeth myfyrwyr y Brifysgol mewn perthynas â materion academaidd ac anacademaidd.

5.6 Rheoleiddio cwynion ac apeliadau myfyrwyr mewn perthynas â materion academaidd ac anacademaidd.

5.7 Rheoleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a dyfarnu cymrodoriaethau, ysgoloriaethau, efrydiaethau, bwrsariaethau a gwobrau a derbyn adroddiad blynyddol ar y dyfarniadau a wnaed.

5.8 Gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch hyd a strwythur y flwyddyn academaidd, a'r amserlen.

5.9 Penderfynu pa aelodau staff fydd â statws academaidd, a chymeradwyo penodiadau er anrhydedd ar argymhelliad y Dirprwy Is-ganghellor/Pennaeth Coleg neu Bennaeth Ysgol priodol.

5.10 Ystyried, a lle bo hynny'n briodol, cymeradwyo, pob cynnig am gysylltiad academaidd â Phrifysgol Bangor mewn sefydliadau neu adrannau eraill neu ganghennau ohonynt.

5.11 Penodi dau aelod o'r Senedd i fod yn aelodau o'r Cyngor.

5.12 Gwneud sylwadau ar newidiadau i'r Siarter a gynigir gan y Cyngor.

5.13 Adrodd i'r Cyngor ar unrhyw fater academaidd

5.14 Adrodd ar unrhyw fater a gyfeirir at y Senedd gan y Cyngor.